



## Ymateb Ofwat i ymgynghoriad Llywodraeth Cymru ar ymdrin â dyled ddrwg yn y diwydiant dŵr

### Negeseuon allweddol

- Mae dyled cwsmeriaid yn broblem ddifrifol i'r sectorau dŵr a charthffosiaeth. Rhaid i gwmnïau gymryd y cyfrifoldeb am reoli hyn. Mae'r rhan fwyaf o'r dyledwyr yn y sector eiddo rhentu. Bydd cael mynediad at lefel briodol o ddata am denantiaid yn cynorthwyo cwmnïau i ymdrin â dyled yn fwy effeithiol.
- Mae cwsmeriaid yn y sector rhentu hefyd yn wynebu'r perygl mwyaf o broblemau fforddiadwyedd. Gall gwell mynediad at wybodaeth briodol am denantiaid gynorthwyo i atal dyledion drwy alluogi'r cwmnïau i nodi a darparu cymorth i'r tenantiaid hynny sy'n debygol o'i chael hi'n anodd i dalu eu biliau.
- Mae risgiau fforddiadwyedd a dyled i'w gweld fwyaf ymhlith tenantiaid cymdeithasol. Mae 42% o denantiaid cymdeithasol a 32% o denantiaid preifat yn gwario rhagor na 3% o'u hincwm gwario ar filiau dŵr. Tenantiaid cymdeithasol yw'r mwyafrif o'r dyledwyr yn y sector rhentu (59% o gymharu â 22% sy'n rhentu'n breifat). O gofio hyn, rydym wedi awgrymu gorfodi landlordiaid cymdeithasol i ddarparu data am denantiaid er mwyn cynorthwyo cwmnïau i wella'r ffordd y maent yn atal ac yn rheoli dyled.
- Er mwyn cefnogi effeithiolrwydd y dull hwn a gwella ymhellach allu cwmnïau i atal ac adennill dyledion, byddem yn annog cwmnïau dŵr i geisio rhannu data gydag awdurdodau lleol, cwmnïau ynni ac asiantaethau gwirio credyd pan fo hyn yn unol â'r ddeddfwriaeth.
- Mae angen camau hefyd i ddiogelu defnyddwyr sydd mewn dyled rhag arferion annheg. Ar hyn o bryd nid oes gofyn i'r cwmnïau fodloni isafswm safonau o ran arfer adennill dyledion. Rydym yn ystyried a oes angen rhagor o ddiogelwch i ddefnyddwyr o fewn prosesau adennill dyledion.
- Dylai'r rheoliadau hyn ddarparu dulliau tebyg i'r rheiny sydd ar gael mewn sectorau tebyg, lle mae bodolaeth perthynas contractiol yn aml yn ei gwneud hi'n haws i gwmnïau gael manylion cwsmeriaid newydd.

## 1. Rhagymadrodd

Mae dyled yn broblem sylweddol ar gyfer y diwydiant dŵr yng Nghymru. Yn 2010-11 roedd gan Dŵr Cymru a Dŵr Dyffryn Dyfrdwy £118.9 miliwn o refeniw'n ddyledus gan gwsmeriaid preswyl – cynnydd gan 31% ers 2007-08. Dros yr un cyfnod cynyddodd lefel y ddyled a ddilëwyd gan gwmnïau Cymru gan dros 400% i £12 miliwn. Amcangyfrifir bod casglu dyledion yn costio £25 miliwn y flwyddyn i gwmnïau Cymru.

Rhaid i'r cwmnïau gymryd cyfrifoldeb am reoli dyled gan fod hynny o fudd iddynt hwy a'u cwsmeriaid. Rydym yn cytuno gyda Llywodraeth Cymru bod angen gweithredu mwy effeithiol er mwyn ei gwneud hi'n ofynnol i gwsmeriaid sy'n gallu talu eu biliau i wneud hynny. Gellir cyflawni hyn orau drwy:

- gymhellion cryf i gwmnïau reoli dyledion yn effeithiol ac effeithlon;
- gwell defnydd ar dulliau adennill dyledion sy'n bodoli;
- gwell dulliau atal dyled; ac
- os bydd cwmnïau'n cael eu hatal rhag gweithredu, darparu dulliau newydd.

Un dull o'r fath sy'n cael ei ddatblygu ar hyn o bryd yw cronfa ddata a ariennir gan y diwydiant a fydd yn ei gwneud hi'n haws i landlordiaid ddarparu gwybodaeth am eu tenantiaid i gwmnïau dŵr, a chynorthwyo i reoli dyled yn y diwydiant.

Rydym yn diwygio'r ffordd yr ydym yn ystyried dyled ddrwg yn adolygiad prisiau 2014. Yn ein hymagwedd tuag at ddyled ddrwg yn PR14, y gwnaethom ei nodi yn ['Gosod rheolaethau prisiau ar gyfer 2015-20 - methodoleg derfynol a disgwiliadau ar gyfer cynlluniau busnes cwmnïau'](#), rydym wedi amlinellu na fyddwn yn gwneud addasiadau awtomatig ar gyfer effeithiau dyled ddrwg. Yn hytrach, bydd cwmnïau'n gallu ceisio cael addasiad dim ond os gallant ddarparu tystiolaeth sylweddol bod lefel eu dyled ddrwg yn bodloni'r tri maen prawf canlynol:

- mae'n cael effaith fawr ar eu costau;
- mae y tu hwnt i reolaeth y rheolwyr (wedi cymryd pob cam posibl i'w rheoli); ac
- mae wedi effeithio ar y cwmni mewn ffordd sy'n wahanol iawn i gwmnïau eraill.

## 2. Ymateb i'r cwestiynau

### Cwestiwn 1: A ydych chi'n cytuno gyda'r costau/manteision a amcangyfrifir sy'n deillio o weithredu'r Rheoliadau hyn neu fel arall a ydych yn dymuno gwneud sylw am unrhyw ran o'r Aseiad Effaith Rheoleiddiol?

Credwn y gallai'r aseiad effaith greu risg o oramcangyfrif y manteision posibl i gwmnïau dŵr a'u cwsmeriaid a thanamcangyfrif y costau, gan fod cryn ansicrwydd yn nifer o'r tybiaethau allweddol.

Yn arbennig, credwn y byddai'n cryfhau'r achos pe byddech yn cyflwyno rhagor o dystiolaeth ar y meysydd canlynol.

- **Y dybiaeth y bydd 100% o landlordiaid yn cydymffurfio â'r rheoliadau.** Mae hyn yn ymddangos yn or-optimistig. Er eich bod yn cydnabod bod hwn yn amcangyfrifiad tua'r pen uchaf, nid yw'n amlwg eich bod wedi ceisio addasu ar gyfer hyn yn y cyfrifiad cost a budd terfynol.
- **Y dybiaeth bod 20% o gwsmeriaid mewn llety rhent mewn dyled i'w cwmni dŵr.** Byddai eglurhad manylach ynglŷn â pham eich bod wedi dewis cadw at yr 20% drwy gydol yr aseiad effaith yn ddefnyddiol, yn arbennig gan eich bod wedi cydnabod ein canfyddiadau ni y gallai'r ffigur hwn fod yn nes at 80%.
- **Yr amcangyfrifiad canolog y bydd 50% o ddyledwyr yn dechrau talu eu biliau.** Mae ein gwaith ein hunain wedi awgrymu bod y ffigur hwn tua 20%. Teimlwn y byddai'n ddefnyddiol i weld rhagor o fanylion ynglŷn â sut yr ydych wedi defnyddio'r gwahanol ffynonellau dadansoddiad i gael 50% fel yr amcangyfrifiad canolog.
- **Y fethodoleg a ddefnyddiwyd ar gyfer cyfrifo'r costau trawsnewid ar gyfer cwmnïau dŵr.** Mae'r costau hyn yn cyfrif am fwyafrif cyfanswm y costau trawsnewid (£40,000 o'r cyfanswm o £60,000), ond nid yw o ble ddaeth y £40,000 yn glir o'r ddogfen aseiad effaith.
- **Costau sefydlu a chynnal porthol Dŵr y DU.** Nid yw'n glir a yw'r costau hyn wedi eu cynnwys yn yr aseiad.
- Hoffem hefyd weld mwy o dystiolaeth i gefnogi'r dybiaeth y bydd refereniw sy'n ddyledus yn parhau i dyfu ar gyfradd sy'n seiliedig ar y newid real a welwyd rhwng 2009-10 a 2010-11. Gallai fod yn ddefnyddiol i weld sut y mae'r cydbwysedd costau a budd yn amrywio o dan nifer o senarios twf gwahanol.

## **Cwestiwn 2: A oes gennych unrhyw sylwadau ynglŷn ag unrhyw rai o'r darpariaethau yn Rheoleiddiad 3 parthed gofyn am fanylion personol meddianwyr eiddo?**

Mae'r ymgynghoriad yn cynnig bod angen casglu'r manylion personol canlynol fel isafswm.

### **Ar gyfer meddianwyr eiddo**

- Enw llawn y meddiannwr.
- Dyddiad geni'r meddiannwr.
- Y dyddiad y dechreuodd y meddiannwr feddiannu'r eiddo.

### **Ar gyfer perchnogion**

- Enw a chyfeiriad y perchennog (oni bai ei fod wedi ei ddarparu eisoes i'r cwmni dŵr).

Rydym yn cefnogi'r egwyddor o leihau beichiau, ond byddem yn awgrymu y byddai casglu'r rhestr estynedig ganlynol o fanylion (fel y gwnaethon gynnig yn ein hymateb i ymgynghoriad dyled ddrwg Defra) yn gwella effeithlonrwydd yr ymarfer heb fod yn anghymesur o feichus.

- Enw llawn y tenant.
- Dyddiad geni'r tenant.
- Dyddiad dechrau'r denantiaeth.
- Dyddiad diwedd y denantiaeth (Ile bo'n briodol).
- Dyddiadau dechrau a diwedd cyfnodau di-feddianaeth (Ile bo'n briodol).
- Darlleniadau mesurydd ar y dechrau a'r diwedd (Ile bo'n briodol).
- Cyfrifoldeb am y bil (hynny yw, ai'r landlord neu'r tenant sy'n talu'r biliau o dan delerau'r denantiaeth).
- Enw'r perchennog.
- Cyfeiriad y perchennog.
- Dyddiad geni'r perchennog.
- Barn y perchennog ynglŷn â chywirdeb a chyflawnrwydd y wybodaeth a ddarparwyd.

## **Cwestiwn 3: A oes gennych unrhyw sylwadau am y darpariaethau yn Rheoleiddiad 3 ynglŷn â chyfathrebu gyda meddianwyr ddarpariaeth cyfeiriad perchennog?**

Rydym yn cytuno bod y darpariaethau a nodir yn Rheoliad 3 ynglŷn â chyfathrebu gyda meddianwyr parthed darpariaeth gwybodaeth yn rhesymol.

**Cwestiwn 4: A oes gennych unrhyw sylwadau ynglŷn ag unrhyw rai o'r darpariaethau yn Rheoleiddiad 4 parthed amseru pryd y bydd y ddyletswydd yn dod yn weithredol neu'r cyfnod pan fydd gofyn am gydymffurfio?**

Rydym yn cytuno bod yr oediad 21 diwrnod yn dilyn hysbysiad a'r 21 diwrnod dilynol a ganiateir i ddarparu gwybodaeth yn amserlenni ymarferol ar gyfer darpariaeth.

**Cwestiwn 5: A oes gennych chi unrhyw sylwadau ynglŷn â'r gofyniad i berchennog hysbysu ymgwymerwr dŵr ynglŷn ag unrhyw amheuan parthed y wybodaeth y maent yn ei ddarparu am feddianwyr?**

Rydym yn cytuno bod y gofyniad, a amlinellir yn Rheoleiddiad 5, i berchnogion amlygu amheuan y gallai fod ganddynt ynglŷn â'r wybodaeth a ddarperir gan denantiaid yn ddiogeliad synhwyrol.

**Cwestiwn 6: A oes gennych unrhyw sylwadau ynglŷn â'r eithriad rhag atebolrwydd ar gyfer taliadau sy'n cronni wedi'r dyddiad cydymffurfio, lle bo gwybodaeth wedi ei ddarparu o fewn 21 diwrnod o'r dyddiad pryd y mae'r ddyletswydd yn berthnasol gyntaf?**

Rydym yn cytuno gyda chynnwys eithriad rhag atebolrwydd yn yr amgylchiadau hyn.

**Cwestiwn 7: A oes gennych unrhyw sylwadau ynglŷn â'r eithriad rhag atebolrwydd, lle mae'r perchennog wedi ddarparu'r wybodaeth sy'n ofynnol i'r ymgwymerwr dŵr wedi'r cyfnod 21 diwrnod pan oedd y ddyletswydd yn berthnasol gyntaf?**

Rydym yn cytuno y dylai perchennogion gael eu heithrio rhag atebolrwydd wedi iddynt wneud ymdrechion rhesymol i ddarparu'r wybodaeth angenrheidiol i'r ymgwymerwr dŵr, hyd yn oed pan fo hyn yn digwydd wedi'r cyfnod 21 diwrnod cyntaf.

**Cwestiwn 8: A oes gennych unrhyw sylwadau ynglŷn ag unrhyw rai o'r darpariaethau yn Rheoleiddiad 6 parthed sut y dylai perchennog ddarparu manylion meddianwyr i'r ymgwymerwr dŵr?**

Rydym yn cytuno bod y dulliau ar gyfer ddarparu manylion a amlinellir yn Rheoleiddiad 6 yn rhesymol.

**Cwestiwn 9: A oes gennych unrhyw sylwadau ynglŷn ag unrhyw rai o'r darpariaethau yn Rheoleiddiad 7 parthed newid perchnogaeth mewn eiddo a feddiannir?**

Rydym yn cytuno bod y rheoliadau a argymhellir ynglŷn â newid perchnogaeth yn rhesymol ac ymarferol.

**Cwestiwn 10: Croesawn eich barn a'ch sylwadau ar unrhyw agwedd ar y Rheoliadau neu'r Aseiad Effaith Rheoleiddiol, yn cynnwys unrhyw beth yr ydych chi'n teimlo nad ydym wedi mynd i'r afael ag ef.**

Gweler yr ymateb i gwestiwn 1.

**Polisi Iaith Gymraeg**

Mae copi o'r ymateb hwn i'r ymgynghoriad ar gael yn Gymraeg.

**Ofwat  
Tachwedd 2013**